# CYLCHLYTHYR 24.01.25

## Mae angen gwirfoddolwyr garddio arnom!!!

A oes unrhyw rieni sydd ag ychydig o amser hamdden sy'n gallu'n helpu ni i baratoi'r ardal allanol ar gyfer ein hymholiad nesaf sydd yn seiliedig ar fyd natur. Mae disgyblion blynyddoedd 3-6 yn awyddus i ddatblygu'r ardaloedd allanol a chreu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt ac mae angen eich help chi arnom i gael yr ardaloedd hyn fel cyflwr digon da a diogel i ddechrau. Os oes diddordeb gennych, rhowch wybod i aelod o staff. Diolch!

## Eisteddfod yr Urdd

Mae nifer o'n disgyblion wedi dangos diddordeb dros y dyddiau diwethaf i gynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Rydym wedi uwchlwytho'r geiriau a cherddoriaeth ar wefan yr ysgol erbyn hyn; felly, os ydy'ch plentyn yn awyddus i gystadlu, rhowch wybod i'r ysgol a gallwch helpu'ch plentyn adre trwy wrando arnynt yn ymarfer a pherfformio. Rhaid i bob disgybl sy'n cystadlu fod yn aelod o'r Urdd a gallwch ymaelodi trwy glicio ar y ddolen yma.

## Llongyfarchiadau Mrs Casey

Cafodd Mrs Casey ei henwebu yr wythnos hon am wobr gan Menter Caerdydd am rhywun sy'n gwneud effaith ar yr ysgol a'r gymuned. Llongyfarchiadau enfawr iddi hi am ennill y wobr a diolwchwn i Miss Meyer am enwebu Mrs Casey yn y lle cyntaf. Hyfryd gweld ein staff gweithgar yn cael eu gwobrwyo.

## Deunydd anaddas ar y teledu ac ar y we

Rydym yn tyfu'n fwyfwy pryderus wrth glywed sgyrsiau ac arsylwi ar gemau'r disgyblion wrth iddyn nhw efelychu pethau maen nhw wedi gwylio ar-lein neu ar y teledu. Mae rhaglenni poblogaidd ar gyfer oedolion yn ddiweddar wedi cael eu gweld gan ddisgyblion sydd yna'n dod a'r gemau a'r trafodaethau amdanynt i'r ysgol. Hoffem ofyn am eich cymorth wrth geisio dysgu'r disgyblion pam fod gan raglenni a gwefannau tystysgrif oedran penodol. Os ydych yn ymwybodol bod eich plentyn gwybod am y math o ddeunydd yma, buaswn yn hynod ddiolchgar pe baech yn cynnal sgwrs gyda nhw i'w hatgoffa o anaddasrwydd dod a'r deunydd yma at sylw eraill yn yr ysgol. Diolch am eich cydweithrediad.

## Clybiau

Cofiwch fod angen ail-gofrestru'ch plentyn am glybiau'r ysgol ar ddechrau pob tymor. Mae'r dolenni i gofrestru eich plentyn ar gyfer clwb ar ôl ysgol yng nghylchlythyr diwethaf yr ysgol. Diolch.

| | Digwyddiadau |
|---|---|
| 13.01.25 | Dyddiad cau ceisiadau derbyn Medi 2025 |
| 15.01.25 | Cwrs Coginio i rieni 9:15 – 11:45 |
| 16.01.25 | Twrnamaint Pel-rwyd cymysg blwyddyn 5 a 6 yr Urdd |
| 16.01.25 | Sesiwn galw-mewn gyda'r nyrs ysgol Anna Nicol. Ystafell |

| | |
|---|---|
| | gymuned 9-11. |
| 17.01.25 | Gweithdy 'Gwobrau, Sancsiynau a Chanlyniadau' i rieni gyda Gareth Jones – Athro arbenigol iechyd a lles emosiynol. |
| 22.01.25 | Cwrs coginio I rieni 9:15-11:45 |
| 29.01.25 | Cwrs coginio i rieni 9:15-11:45 |
| 06.02.25 | Twrnamaint pel rwyd i ferched blwyddyn 5 a 6 Yr Urdd |
| 09.02.25 | Dydd Miwsig Cymru |
| 11.02.25 | Cyfarfod llywodraethwyr |
| 18.02.25 | Cefnogi plentyn sydd ag anghenion iaith a lleferydd – gweithdy i rieni gan athro arbenigol iaith a lleferydd- Sarah Smitham. |
| 24.02.25 | GWYLIAU HANNER-TYMOR |

**DYDDIADAU PWYSIG**